Rhif: WG48707

Llywodraeth Cymru
# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

## Ardrethi Annomestig

Cymorth Trethi Ynni Adnewyddadwy – Crynodeb o'r Ymatebion

16 Hydref 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83504-898-6

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gymorth trethi ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

## Camau i'w cymryd

Cyhoeddir y ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fersiynau print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill ar gais.

## Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:
Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: LGFR.Consultations@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac mae modd eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori:
https://www.llyw.cymru/cymorth-trethi-ynni-adnewyddadwy

# Cynnwys

Cyflwyniad ..... 4
Cynigion ..... 4
Ymgysylltu ..... 4
Crynodeb o’r ymatebion ..... 5
Camau Nesaf ..... 7

## Cyflwyniad

1. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd amryw o ddiwygiadau i'r system ardrethi annomestig yng Nghymru yn ystod tymor presennol y Senedd. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn nodi'r uchelgais i sicrhau Cymru decach, wyrddach a chryfach. Dyma'r egwyddorion sy'n sail i unrhyw newidiadau posibl i'r system ardrethi annomestig. Rydym wedi datblygu cynigion i helpu i gymell buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy ac, yn ei dro, i chwarae rhan yn y gwaith o gefnogi ein nodau datgarboneiddio a sero net.

2. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar gynigion Llywodraeth Cymru i eithrio peiriannau a pheirianwaith adnewyddadwy cymwys rhag cael eu cynnwys mewn prisiadau ardrethi annomestig a darparu rhyddhad ar gyfer rhwydweithiau gwres carbon isel, o 1 Ebrill 2024. Roedd hyn yn berthnasol i Gymru yn unig, ond mae cynigion tebyg wedi'u datblygu gan Lywodraeth y DU ar gyfer Lloegr.

3. Gofynnwyd i amrywiaeth eang o randdeiliaid gymryd rhan, gan gynnwys llywodraeth leol, cyrff sy'n cynrychioli sectorau o'r sylfaen drethu, cynrychiolwyr proffesiynol ym maes ardrethu neu drethu, a thalwyr ardrethi unigol.

## Cynigion

4. Mae Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Peiriannau a Pheirianwaith) (Cymru) 2000 yn pennu'r peiriannau a'r peirianwaith sydd i'w hystyried yn rhan o eiddo sy'n cael ei brisio at ddibenion ardrethi annomestig, ac yn darparu ar gyfer rhai eithriadau. Peiriannau a pheirianwaith "Dosbarth 1" yw'r rhai a ddefnyddir yn bennaf neu'n gyfan gwbl mewn cysylltiad â chynhyrchu, storio, trawsnewidiad sylfaenol neu brif drosglwyddiad pŵer yn yr eiddo. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig eithrio peiriannau a pheirianwaith cymwys Dosbarth 1 at ddibenion storio, trawsnewid a throsglwyddo pŵer ar y safle a mannau gwefru cerbydau trydan (EVCP).

5. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig rhoi rhyddhad ar gyfer rhwydweithiau gwres carbon isel. Bydd y diffiniad o rwydwaith gwres cymwys, at ddibenion darparu rhyddhad, yn cael ei ragnodi mewn rheoliadau. Bydd hereditamentau cymwys yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf fel rhwydwaith gwres sy'n cyflenwi ynni thermol o ffynhonnell carbon isel. At ddibenion y rhyddhad, mae rhwydwaith gwres yn gyfleuster sy'n cyflenwi ynni thermol o ffynhonnell ganolog i ddefnyddwyr, drwy rwydwaith o bibellau, at ddibenion gwresogi gofod, oeri gofod neu ddŵr poeth domestig. Ni fydd rhwydweithiau sy'n darparu gwres yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben gwahanol (megis proses ddiwydiannol) yn gymwys.

## Ymgysylltu

6. Gwahoddwyd sylwadau fel rhan o ymgynghoriad 12 wythnos a gynhaliwyd o 23 Mai 2023 i 15 Awst 2023. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd modd i ymatebwyr gyflwyno eu

barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, yn Gymraeg neu yn Saesneg.

## Crynodeb o'r ymatebion

7. Cafwyd cyfanswm o 33 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Cafwyd ymatebion gan amryw o randdeiliaid. Cafwyd 11 ymateb gan fusnesau unigol, wyth gan aelodau o'r cyhoedd a allai hefyd fod yn drethdalwyr, wyth gan gyrff sy'n cynrychioli sectorau o'r sylfaen drethu, pedwar gan gynrychiolwyr proffesiynol ym maes ardrethu neu drethu a dau gan lywodraeth leol.

8. Mae'r crynodeb canlynol yn canolbwyntio ar y cwestiynau a ofynnwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd y sylwadau yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru yn gyffredinol yn y rhan fwyaf o achosion, gyda rhai eithriadau. Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Ei nod yw ceisio tynnu sylw at y themâu allweddol, yn hytrach na chofnodi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr.

9. Nid oedd rhai o'r ymatebwyr wedi ateb pob cwestiwn. Mae'r holl ganrannau'n seiliedig ar y sylwadau a roddwyd mewn cysylltiad â'r cwestiwn perthnasol, yn hytrach na chyfanswm yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyfan.

10. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn **Atodiad A**.

**C1. A ydych yn cytuno â'r cynnig arfaethedig i eithrio ynni adnewyddadwy a pheiriannau a pheirianwaith EVCP o brisiadau ardrethi annomestig?**

11. Allan o'r 33 ymateb a gafwyd, roedd 70% o blaid y cynnig a nodwyd yn yr ymgynghoriad, a 30% yn erbyn. Rhoddodd 26 o'r ymatebion sylwadau penodol mewn ymateb i'r cwestiwn.

12. Roedd tua thri chwarter y sylwadau yn canolbwyntio ar yr angen i'r cynigion gynnwys mwy o eithriadau, gyda'r farn hon yn cael ei chyflwyno gan y rhai o blaid a'r rhai yn erbyn cynigion. Yr awgrym mwyaf cyffredin, yn hanner y sylwadau, oedd y dylid cynnwys technoleg hydrogen fel eithriad hefyd.

13. Ymhlith y rhai a oedd o blaid yr eithriadau arfaethedig yn benodol, roedd sylwadau ehangach yn awgrymu y gallai cefnogaeth ariannol ychwanegol weithredu fel cymhelliant ochr yn ochr â'r eithriadau arfaethedig. Roedd sylwadau hefyd yn awgrymu amserlen hirach ar gyfer eithriadau neu, mewn rhai achosion, sefydlogrwydd.

**C2. A ydych yn cytuno y byddai'r rhyddhad rhwydwaith gwres arfaethedig yn helpu i gefnogi twf yn y sector carbon isel?**

14. O'r 27 ymateb a gafwyd, roedd 89% yn cytuno â'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad, ac 11% yn erbyn. Rhoddodd 14 o ymatebwyr sylwadau pellach.

15. Roedd y sylwadau yn bennaf gytûn y byddai rhyddhad rhwydwaith gwres yn helpu i gefnogi twf yn y sector. Roedd y safbwyntiau ehangach yn cynnwys

galwadau i gynnwys gwres at wahanol ddibenion, yn enwedig prosesau diwydiannol, yn y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y rhyddhad.

**C3. A ydych chi'n credu y byddai'r diffiniadau arfaethedig yn sicrhau bod y rhyddhad rhwydwaith gwres yn cael ei dargedu'n gywir?**

16. O'r 18 ymateb a gafwyd, roedd 78% yn cytuno y byddai'r diffiniadau arfaethedig yn sicrhau bod y rhyddhad rhwydwaith gwres yn cael ei dargedu'n gywir, ond roedd 22% yn anghytuno.

17. Ymhlith y rhai a oedd yn cytuno ar y cyfan, gwnaeth 10 ymatebydd sylwadau pellach. Roedd nifer o'r sylwadau yn cynnwys esboniadau a awgrymwyd mewn perthynas â'r cwmpas arfaethedig. Gwnaeth nifer fach sylwadau ar weinyddu'r rhyddhad, gan gynnwys arweiniad a monitro.

18. Roedd y rhai nad oeddent yn cytuno o'r farn y dylid ehangu cwmpas y cynigion i gynnwys mathau eraill o wres a rhwydweithiau sy'n ffurfio rhan o hereditament mwy, yn hytrach na bod yn annibynnol.

**C4. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar y cynigion polisi neu eu defnydd ymarferol?**

19. Allan o'r 20 o ymatebion a gafwyd, roedd tua hanner ohonynt o'r farn y dylid cynnwys technolegau hydrogen yn yr eithriadau peiriannau a pheirianwaith. Roedd sylwadau eraill yn canolbwyntio ar gael gwared ar gostau busnes cysylltiedig eraill neu ddarparu mwy o gymorth ariannol i gefnogi busnesau, megis trwy gynlluniau grant. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai cynigion gwmpasu amserlen hirach, gan gynnwys awgrymiadau y dylai'r rhyddhad fod yn barhaol.

20. Ni wnaeth un ymateb fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiynau a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Y farn a gyflwynwyd oedd y byddai'r cynigion hyn yn helpu i gefnogi nodau Cymru gyflawni sero-net erbyn 2050.

**C5A. Hoffai Llywodraeth Cymru wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:**

- **i. ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac**
- **ii. ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

21. Rhoddodd chwech o'r ymatebwyr sylwadau ar gyfer y cwestiwn hwn. O'r rhain, roedd pedwar o'r farn na fyddai'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Tynnodd dau ymatebydd sylw at bwysigrwydd sicrhau y gellid defnyddio terfynellau EVCP trwy gyfrwng y Gymraeg.

**C5B. Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid datblygu'r polisi er mwyn cael:**

i. **effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg; a**
ii. **osgoi unrhyw effaith niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.**

22. Cafwyd chwech ymateb i'r cwestiwn hwn. Ni wnaed unrhyw awgrymiadau penodol ar sut i wella'r polisi. Darparwyd sylwadau ar bwysigrwydd ymyriadau polisi ehangach.

## Camau Nesaf

23. Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ati gyda'r gwaith o ddatblygu'r cynigion.

24. Gwnaeth sawl ymatebydd sylwadau yn ymwneud â phwysigrwydd hydrogen o fewn cymysgedd ynni'r dyfodol yng Nghymru. Mae'r cynigion hyn yn targedu cefnogaeth yn seiliedig ar y **ffynhonnell** sy'n cynhyrchu'r mathau o ynni sy'n berthnasol i'r ymyriadau unigol. Os yw'r ynni'n cael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy, y bwriad yw y bydd o fewn y cwmpas ar gyfer y cynigion. Mae ynni a gynhyrchir o ffynonellau anadnewyddadwy y tu hwnt i gwmpas y cynigion hyn.

25. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth sy'n ofynnol i weithredu'r cynigion maes o law, a daw i rym o 1 Ebrill 2024.

**Atodiad A: Rhestr o ymatebwyr**

Cafwyd ymatebion gan y canlynol:

Cymdeithas Cerbydau Trydan
Cymdeithas Pympiau Gwres
Cymdeithas Siopau Cyfleustra
Cymdeithas y Syrfewyr Ardrethu
EDF Energy
Ffederasiwn Masnachwyr ac Adeiladwyr
Gerald Eve
GL Hearn
Hynamics
Menter Môn
Nordic Energy
Protium
Scottish Power
Solar Energy UK
UK Hospitality Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru
Y Ffederasiwn Busnesau Bach
Y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw
Ynni Glân

Cafwyd wyth ymateb gan aelodau unigol o'r cyhoedd a allai fod yn drethdalwyr.

Roedd chwech ymatebydd arall yn dymuno aros yn ddienw. Os nad oedd yn glir beth oedd dewis yr ymatebydd, mae’r ymateb wedi cael ei gadw yn ddienw.